

**Addysg / Education
Gwasanaeth Ysgolion /
Schools' Service**

Swyddog Gwella Ansawdd Addysg /
Education Quality Improvement Officer – Keith Parry

Gofynnwch am/Ask for: **Keith Parry**

☎ (01286) 679588 Ein Cyf / Our Ref: **KPPwerauCyllidol020909**

📠 (01286) 672635 Eich Cyf / Your Ref:

✉ KeithParry@gwynedd.gov.uk

02/09/09

**Penaethiaid a Chadeiryddion
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd (er gwybodaeth)**

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd

Par: Dirprwyo Pwerau Cyllidol i Bennaeth.

Cyhoeddwyd copi terfynol 'Rheolaeth Gyllidebol Ysgolion Cynradd' gan Wasanaeth Archwilio a Rheoli Risg Y Cyngor ar ddechrau mis Gorffennaf eleni. Mae argymhelliad A04 o'r adroddiad hwnnw yn nodi fel a ganlyn:-

'Mae angen sicrhau bod gan bob Ysgol gofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r corff llywodraethol a'r pennaeth parthed penderfyniadau ariannol, lle mae'r corff llywodraethol wedi cytuno ynghyd a'r pennaeth ar symiau synhwyrol fel bod y pennaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau. Ymhellach bydd angen i'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr lofnodi'r ddogfen er mwyn cadarnhau bod y symiau yma wedi ei chytuno.

Dylid diweddarau'r ddogfen pob tair blynedd neu pan fydd pennaeth newydd yn cychwyn yn yr Ysgol.'

Er mwyn i bennaethiaid a chadeiryddion cydymffurfio gyda'r arweiniad uchod, atodaf isod ganllaw pellach i'ch sylw, gan obeithio y bydd o ddefnydd.

Yn gywir

Keith Parry

Swyddog Gwella Ansawdd Addysg

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Canllaw Dirprwyo Pwerau Cyllidol i Bennaeth

Cefndir –

Nid yw'n briodol i'r Gwasanaeth Addysg benderfynu ar lefel o ddirprwyo - Corff Llywodraethol pob ysgol sydd i benderfynu yn unol â Chynllun Cyllido Ysgolion y Cyngor.

Amcanion (awgrymedig) y polisi felly fyddai:

- Cyfarfod â gofynion statudol rheoliadau lleol.
- Ymateb yn gadarnhaol i argymhellion adroddiadau diweddar gan archwilwyr yn y maes (e.e. 'Cadw'ch Balans' gan Estyn).
- Hyrwyddo arferion da yn yr ysgol.
- Diffinio pa gyfrifoldebau ar benderfyniadau ariannol y gellid eu datganoli i'r pennaeth i redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Elfennau pwysig i'w cadarnhau yn y polisi –

Uchafswm ariannol gall y Pennaeth ei wario ar un eitem cyn cysylltu â'r llywodraethwyr - £.....

Uchafswm ariannol gallai'r pennaeth wario ar un eitem cyn cysylltu â thrafod gyda'r llywodraethwyr. - £.....

Uchafswm ariannol gellid ei wario ar un eitem cyn derbyn cymeradwyaeth Cadeirydd y Llywodraethwyr (gydag adroddiad priodol i ddilyn) - £.....

Uchafswm ariannol gellid ei wario ar un eitem cyn i gyfarfod o'r llywodraethwyr/panel cyllid dderbyn adroddiad - £.....

Hawl (neu beidio) i'r pennaeth drosglwyddo arian rhwng gwahanol benawdau o gyllideb yr ysgol ("virement"), a hawl pellach gyda chymeradwyaeth Cadeirydd/Panel Cyllid.

Hawl (neu beidio) i'r pennaeth osod lefel ffioedd/prisiau sy'n dylanwadu ar faint o incwm a dderbynnir yn yr ysgol (er enghraifft - ffioedd gwersi offerynnol i ddisgyblion neu ffi am osod adeiladau'r ysgol).

Ystyriaethau Eraill/Arfer Da –

- Yr angen i gyflwyno cyllideb drafft i'r Corff Llywodraethol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
- Yr angen i baratoi adroddiadau cyllidol yn monitro sefyllfa ariannol gyfredol yr ysgol a'u cyflwyno i'r llywodraethwyr yn dymhorol.
- Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol i benderfynu ar y cyd i ba bwrpas y dylai unrhyw danwariant gael ei ddefnyddio.

